| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Aliya Iftikhar, Swyddog Polisi* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *Aliyaiftikhar@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 541 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |

**Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae ein haelodau'n cynnwys 20 o wasanaethau cymorth arbenigol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth a gwaith ataliol sy'n achub ac yn newid bywydau mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc, dynion a bechgyn, pobl draws ac anneuaidd, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Fel corff ymbarél, ein prif nod yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn dyfarnu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS yma).

## Cyflwyniad

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi penderfynu ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad drwy'r naratif ysgrifenedig hwn, i sicrhau ein bod yn dangos yn glir yr effaith negyddol y bydd y mesurau arfaethedig yn eu cael ar oroeswyr pob math o gam-drin a/neu drais. Er ein bod yn croesawu diwygiadau i'r trefniadau cyfraith teulu breifat, nid ydym yn credu bod y cynigion a wnaed yn bodloni nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gael dull llai gwrthwynebol o ddatrys anghydfod teuluol[1]. Tynnwyd

[1]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1144049/supporting-earlier-resolution-of-private-family-law-arrangements-consultation-web.pdf, page 4.

sylw mewn adolygiad o achosion plant cyfraith breifat, adroddiad panel Harm, a gyhoeddwyd yn 2020, at bryderon difrifol megis bychanu honiadau o gam-drin domestig yn systematig, proses llys oedd yn arwain at drawma, bygythiad o ailadrodd cyfreitha a system wrthwynebol[2]. Roedd yr argymhellion yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau diwylliant o ddiogelwch ac amddiffyn a gweithdrefnau'n cael eu cynllunio gydag anghenion plant a goroeswyr cam-drin yn flaenoriaeth[3]. Yn dilyn yr adroddiad hwn, pwysleisiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei hymrwymiad i hwyluso diwygiadau sylfaenol oedd yn mynd i'r afael â'r problemau systemig hirhoedlog, a hefyd sicrhau system sy'n cefnogi goroeswyr cam-drin domestig[4]. Nid ydym yn credu bod y mesurau a gynigir sy'n canolbwyntio ar gyfryngu gorfodol, gorchmynion costau a rhaglenni cyd-rianta mandadol yn cyflawni'r nod hwn a chredwn yn sylfaenol fod yr awgrymiadau hyn yn mynd yn erbyn unrhyw argymhellion a wnaed yn adroddiad panel Harm ac y byddant yn parhau i lesteirio bywyd goroeswyr yn drychinebus ac yn achosi niwed pellach iddynt.

Mae gwaith gan y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar wedi'i ddefnyddio fel sail i'r dystiolaeth fod gwrthdaro estynedig rhwng rhieni sy'n gwahanu'n niweidiol i blant[5]. Nid yw'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar yn arbenigo mewn cam-drin ar sail rhywedd ac felly rydym ni'n pryderu bod mesurau gorfodol yn cael eu cyflwyno'n seiliedig ar ymchwil nad yw'n gosod hyn yn greiddiol. Rydym hi hefyd yn pryderu ei bod yn ymddangos y ceir diffyg gwahaniaethu rhwng gwrthdaro rhieni a cham-drin domestig, a'r gydnabyddiaeth fod cam-drin domestig wedi'i wreiddio mewn grym a rheolaeth. Er bod y cynnig ategol cynharach ynghylch trefniadau cyfraith teulu'n crybwyll cam-drin domestig yn glir, dim ond unwaith y sonnir am gam-drin rhywiol. Mae'n hanfodol nad yw cam-drin domestig yn cael ei weld fel cam-drin corfforol yn unig, ond ym mhob un o'i ffurfiau fel rheolaeth drwy orfodaeth, cam-drin economaidd, cam-drin emosiynol a cham-drin rhywiol[6], i sicrhau bod profiadau'r holl oroeswyr yn cael eu deall.

Mae hefyd yn aneglur pam fod gwersi o Awstralia wedi'u defnyddio fel sail ar gyfer cyflwyno cyfryngu gorfodol, pan awgrymir nad oedd y datrysiadau amgen gorfodol yn gweithio gydag achosion oedd yn

---

[2] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, pages 4 and 5.
[3] ibid, pages 9,10 and 11.
[4]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/895174/implementation-plan-assessing-risk-children.pdf, page 3.
[5] https://www.eif.org.uk/report/what-works-to-enhance-interparental-relationships-and-improve-outcomes-for-children.
[6] Deddf Cam-drin Domestig 2021, Rhan 1 Adran 1 (3).

cynnwys cam-drin domestig[7]. Pennwyd hefyd bod sgrinio ar gyfer cam-drin domestig yn annigonol a bod angen i deuluoedd fynychu'r llys o hyd gan nad oedd datrysiad wedi'i gyflawni[8].

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn awgrymu y byddai cyflwyno cyfryngu gorfodol yn helpu i leihau ôl-groniad y llys a chaniatáu i deuluoedd ddod i gytundeb yn gynt heb ymyrraeth y llys. Credwn yn gryf nad oes modd cyflwyno mesurau gyda chymhelliant i leihau ôl-groniadau llysoedd, heb ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r anghydraddoldeb o ran pŵer rhwng y goroeswr a'r cyflawnwr, a'r ffordd y mae trefniadau cyfraith teulu breifat boed yn y llys neu drwy gyfryngu yn aml yn cael eu troi'n arf gan y cyflawnwr i ymarfer mwy fyth o reolaeth, hyd yn oed pan fydd y berthynas ar ben. Fel yr amlygwyd mewn ymchwil gan Cafcass a Cymorth i Ferched, cafwyd honiadau o gam-drin domestig mewn 62% o achosion llys cyfraith teulu[9], ond mae'r cynigion hyn yn trin cam-drin domestig fel eithriad yn hytrach na norm.

## Cyfryngu gorfodol cyn achos llys

Roedd un o argymhellion adroddiad Panel Harm yn pwysleisio 4 egwyddor cynllunio sylfaenol y dylid eu rhoi ar waith mewn achosion cyfraith teulu breifat[10] ac mae hyn yn cynnwys diwylliant o ddiogelwch a gwarchod rhag niwed. Rydym yn credu'n gryf nad yw cynnig cyfryngu gorfodol cyn achos llys yn creu diwylliant o ddiogelwch ac nad yw'n diogelu menywod a phlant rhag niwed. Yn hytrach mae'n bwydo amgylchedd o bŵer a rheolaeth bellach gan y cyflawnwr ac rydym yn anghytuno'n sylfaenol gyda'r cynnig hwn. Bydd cyfryngu gorfodol cyn achos llys yn gosod goroeswyr mewn sefyllfa anghynaliadwy, hyd yn oed gyda'r eithriad a ddarperir i'r rheini sy'n gallu rhoi tystiolaeth o gam-drin domestig. Er ein bod yn cytuno gyda chreu natur lai gwrthwynebol i'r llys, ni chredwn mai cyfryngu gorfodol a rhaglenni cyd-rianta yw'r ffordd i gyflawni hyn. Yn y diweddariad cyflenwi ar adroddiad panel Harm a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, nodwyd bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithio at yr argymhellion a sicrhau "na fydd unrhyw ddioddefwr cam-drin domestig yn dioddef ail drawma neu'n cael eu gosod mewn perygl[11]. Y gwirionedd, a nodwyd gan Cymorth i Ferched, yw bod goroeswyr wedi sôn am ddiffyg cynnydd sydd wedi'u gadael wedi

[7]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1144050/supporting-earlier-resolution-of-private-family-law-arrangements-consultation-print.pdf, page 24.
[8] ibid.
[9] https://www.cafcass.gov.uk/wp-content/uploads/2017/12/Allegations-of-domestic-abuse-in-child-contact-cases-2017.pdf, page 4.
[10] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, page 9.
[11]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1158906/harm-panel-delivery-update.pdf, page 4.



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

dadrithio ac yn siomedig gyda'r newid a addawyd a'r diffyg dealltwriaeth sy'n dal i fodoli am elfennau o gam-drin, fel rheolaeth dan orfodaeth[12]. Yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflwyno cyfryngu gorfodol cyn achos llys, rydym yn galw ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ganolbwyntio ar roi argymhellion adroddiad panel Harm ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon systemig dwfn o ran sut mae'r llys yn cydnabod ac yn ymateb i gam-drin domestig[13]. Mae'n baradocsaidd bod gwell dealltwriaeth o reolaeth dan orfodaeth yn dechrau ymddangos yn y gymdeithas ehangach, tra bo dewisiadau ar wahân i achosion llys yn cael eu gwthio, gan achosi niwed sylweddol pellach i oroeswyr nad oes modd eu heithrio[14].

Nododd un goroeswr y bu diffyg gwybodaeth ynghylch yr opsiynau oedd ar gael iddynt a'u hawliau yn ystod eu profiad nhw o gyfryngu. Mynegwyd eu bod yn teimlo ar eu pen eu hun. Yn aml mae goroeswyr yn methu â sicrhau diogelwch a chyfiawnder oherwydd rhwystrau niferus, ac mae hyn yn waeth yn achos goroeswyr sy'n fudwyr sydd yn aml heb wybodaeth am system y DU. Caiff y pryderon a godwyd yn Adroddiad Harm megis diwylliant o blaid cyswllt, gweithio mewn seilo a system wrthwynebol i gyd eu dwysau i fenywod sy'n fudwyr, oherwydd anghydraddoldeb strwythurol pellach ac yn aml mae goroeswyr sy'n fudwyr yn teimlo bod proses y llysoedd teulu yn estyniad o'r cam-drin[15]. Mae sefydliadau gan ac ar gyfer wedi amlygu eu pryderon ynglŷn â'r effaith anghymesur y bydd hyn yn ei gael ar oroeswyr sy'n fudwyr. Yn aml mae cyflawnwyr yn defnyddio diffyg dealltwriaeth goroeswyr sy'n fudwyr o'r system a'u statws mewnfudo bregus i'w hynysu ymhellach a chyflawni rhagor o gam-drin. Yn aml ceir diffyg dealltwriaeth bod cyfieithwyr ar gael sy'n golygu bod goroeswyr sy'n fudwyr yn methu â'u mynegi eu hunain yn llawn ac yn gorfod llywio drwy drefniadau cyfraith teulu dan amgylchiadau anwastad[16]. Yn aml hefyd ceir pwysau gan gymunedau ac aelodau eraill o'r teulu i gymryd rhan mewn cyfryngu. Caiff hyn ei ddwysau ymhellach oherwydd eu bod yn ofni'r heddlu ac yn ofni cael eu hallgludo neu golli eu plant os nad ydynt yn cymodi. Bydd caniatáu i'r system gyfryngu bresennol weithio yn y ffordd hon, neu gyflwyno cyfryngu gorfodol cyn achos llys, yn parhau i achosi trawma sylweddol i oroeswyr, yn ogystal â hwyluso amgylchedd gwrthwynebol pellach. Bydd cyflwyno cyfryngu gorfodol yn arwain at brofiadau cam-drin domestig cymhleth i oroeswyr, ochr yn ochr â gwahanol ffactorau diwylliannol a chroestoriadol[17], ac nid ydym yn credu bod gan staff na chyfryngwyr y llysoedd teuluol y lefel briodol o hyfforddiant i ymdrin â hyn yn iawn.

---

[12] https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/Two-Years-Too-Long-2022.pdf, page 7.
[13] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, page 3.
[14] https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/Two-Years-Too-Long-2022.pdf, page 56.
[15] https://lawrs.org.uk/blog/2021/07/20/family-courts-and-migrant-women/.
[16] ibid.
[17] https://csrm.cass.anu.edu.au/sites/default/files/docs/CSRM_60ICERT_APPENDIX_A.pdf, page 16.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn aml mae goroeswyr yn profi cam-drin ar ôl gwahanu a chaiff hyn ei waethygu gan achos cyfraith teulu a daw'n ffordd o ymarfer rheolaeth unwaith y bydd y berthynas ar ben[18]. Mae gennym bryderon difrifol y byddai cyflwyno cyfryngu gorfodol yn caniatáu i'r cyflawnwr ddefnyddio'r broses hon fwy fyth fel arf, a pharhau i ymarfer grym a rheolaeth dros y goroeswr, os nad ydynt yn gallu sicrhau estyniad neu os yw'r cyflawnwr yn eu gosod mewn sefyllfa anodd i gydymffurfio â bygythiadau o gyswllt neu niwed pellach.

Credwn yn gryf fod rhaid i gyfryngu barhau'n wirfoddol.

**Cyfarfodydd Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu**

Nid ydym yn credu bod y trefniant Cyfarfodydd Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu ar hyn o bryd yn sicrhau diogelwch goroeswyr nac yn gallu canfod arwyddion o gam-drin.

Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth y DU ofyniad bod unigolion yn gorfod mynd i Gyfarfod Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu cyn gwneud cais i'r llysoedd teulu[19]. Mae hyn yn statudol oni bai bod honiad o gam-drin domestig wedi'i wneud, a bod goroeswr yn bodloni'r meini prawf tystiolaeth. Mae'r meini prawf yn cynnwys tystiolaeth fel arestiad am drosedd trais domestig berthnasol, llythyr neu adroddiad gan berson sy'n aelod o gynhadledd asesu risg amlasiantaethol neu IDVA[20]. Mae tystiolaeth o brofi neu fod wedi profi cam-drin domestig yn dibynnu ar y rhagdybiaeth fod y goroeswr yn gyfforddus yn datgelu a'u bod yn ymwybodol eu bod yn oroeswr cam-drin domestig. Mae llawer o resymau gwahanol pam na fydd goroeswr yn dewis datgelu ac felly'n gorfod cymryd rhan mewn cyfryngu gorfodol fyddai'n eu gadael mewn sefyllfa lle mae'r cam-drin yn parhau neu'n cynyddu, a gallent gytuno ar amodau am nad ydynt yn credu bod ganddynt unrhyw opsiwn arall. Oherwydd diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar oroeswyr, yn aml ceir camganfyddiad ymhlith gweithwyr llysoedd teulu fod cam-drin yn dod i ben pan fydd y berthynas yn gorffen.

Cynhelir Cyfarfodydd Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu gyda chyfryngwr a fyddai'n asesu a yw'r broblem/problemau sydd i'w datrys yn addas ar gyfer cyfryngu. Fel y nodwyd yn gynharach, mae llawer o resymau pam na fydd goroeswr o bosibl yn gwneud cais am eithriad nac yn datgelu cam-drin domestig i'r cyfryngwr. Ceir pryderon nad yw cyfryngwyr yn gallu adnabod arwyddion o gam-drin. Mae un profiad a amlygwyd yn cynnwys achos o reolaeth dan orfodaeth yn digwydd yn uniongyrchol o flaen cyfryngwr. Nid oedd y cyfryngwr yn ymwybodol bod hyn yn digwydd o'u blaen.

[18] https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/Two-Years-Too-Long-2022.pdf,page 29.
[19] Children and Families Act 2014 section 10.
[20] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_03a#para20.

Yn ystod y broses Cyfarfod Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu, yn hytrach na chanolbwyntio ar sgrinio mewn achosion o gam-drin domestig, credwn y dylai'r cyfrifoldeb fod ar sgrinio allan yr achosion nad ydynt yn cynnwys unrhyw fath o gam-drin domestig. Rhaid deall a chydnabod bod dros 60% o achosion yn y llysoedd teulu yn cynnwys rhyw fath o gam-drin domestig ac felly nid yw'n anghyffredin. Credwn mai arbenigwr ar gam-drin domestig, fydd â phrofiad o gefnogi ac eiriol dros oroeswyr pob math o gam-drin a thrais, a ddylai fod yn gyfrifol am asesu ar gyfer cam-drin domestig na chaiff ei ddatgelu. Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer pennu addasrwydd ar gyfer rhaglen o gyd-rianta os mai dyma sydd i'w gyflwyno.

Tra bydd rhai goroeswyr yn dal i fynd i gyfryngu, mae'n hanfodol fod cyfryngwyr wedi cael lefel sylweddol o hyfforddiant ar gam-drin domestig, sut mae'n edrych a sut mae'n effeithio ar oroeswr, er mwyn gallu cadw'r goroeswr yn ddiogel yn ystod y cyfryngu. Rhaid adlewyrchu hyn yn y gofynion i fod yn gyfryngwr achrededig ac yn y canllawiau a'r weithdrefn. Tra bo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal i ganolbwyntio ar gynnig cyfryngu gorfodol cyn achos llys, credwn fod rhaid iddynt ganolbwyntio ar y trefniadau cyfraith teulu presennol a sut nad ydynt yn addas i oroeswyr.

**Ymdrech resymol i gyfryngu**

Ni chredwn y dylid creu trothwy "ymdrech resymol i gyfryngu" gan fod gennym bryderon sylweddol y bydd hyn yn caniatáu i gyflawnwyr ymarfer mwy fyth o rym a rheolaeth dros oroeswyr. Mae cyflawnwyr yn debygol o ddatgan nad yw'r goroeswr wedi dymuno trafod neu bydd yn defnyddio "afrwyddineb'' y goroeswr er budd iddyn nhw ac i gefnogi eu hachos. Nodwyd eisoes fod goroeswyr wedi cael profiad o Farnwyr sy'n defnyddio'r un iaith sy'n lladd ysbryd ac yn beio'r goroeswr â'r cyflawnwr ac yn eu galw'n afrwydd, afresymol neu ddig[21], gan nodi hefyd fod y cyflawnwr yn atyniadol ac yn dangos eu 'hymddygiad gorau'[22]. Caiff hyn ei ddwysau gan ddiwylliant rhywiaethol a nodir mewn llysoedd lle disgwylir yn aml i fenywod gadw'n dawel o'i gymharu ag ymddygiad ymosodol gan rai tadau sy'n cael ei oddef yn y llys[23]. Mae un goroeswr wedi nodi bod cyflawnwr wedi gallu twyllo'r gwasanaethau cymorth, gyda llawer yn methu â deall yr effaith roedd y cam-drin yn ei gael arni, tra'r oedd hi hefyd yn profi system y llys oedd yn gwneud iddi deimlo mai 'mam sydd ar fai am hyn'. Mae'r agweddau rhywiaethol a mysogynistaidd a geir yn y llysoedd teulu yn gosod goroeswyr mewn sefyllfa anghynaliadwy lle maen nhw'n debygol o gael eu hail-drawmateiddio wrth geisio sicrhau cyfiawnder.

[21] ibid, page 30.
[22] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/domestic-abuse-private-law-children-cases-literature-review.pdf, page 68.
[23] ibid.



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym ni'n gwrthwynebu'n gryf cyflwyno pŵer i'r llys allu gofyn i bartïon eu hesbonio eu hunain. Mae hyn yn rhoi lle i'r cyflawnwr ddadlau dieithriad rhiant a pharhau i reoli'r sefyllfa.

Credwn y bydd cyflwyno'r trothwy hwn yn creu amgylchedd pellach i oroeswyr deimlo nad oes neb yn eu credu a bydd yn caniatáu i gyflawnwyr barhau i hwyluso cam-drin ar ôl gwahanu. Y Barnwr fyddai'n pennu a oes ymdrech rhesymol wedi'i wneud i gyfryngu, a gyda chanfyddiadau Adroddiad Harm, mae pryderon sylweddol yn parhau y bydd cam-drin domestig yn dal i gael ei fychanu neu ei golli'n llwyr.

**Eithriadau**

Ni chredwn y dylai cyfryngu fod yn orfodol, fodd bynnag rydym yn cydnabod bod angen i'r eithriad ar gyfer cam-drin domestig fod yn effeithiol boed hyn yn cael ei gyflwyno ai peidio. Rhaid i geisiadau brys ac amgylchiadau diogelu plant hefyd gael eu heithrio, ochr yn ochr ag achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.

Credwn fod rhaid i bob math o VAWDASV gael eu heithrio, gan gynnwys mathau o gam-drin fel yr hyn a elwir yn drais ar sail anrhydedd, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) a phriodas dan orfod. Rhaid mynegi hyn yn yr holl ganllawiau a gweithdrefnau.

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 3A paragraff 20 yn rhestru'r holl fathau o dystiolaeth sydd eu hangen i sicrhau eithriad, ac mae hyn yn cynnwys tystiolaeth fel rhybuddiad yr heddlu, euogfarn berthnasol neu adroddiadau gan IDVA. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cael eithriad ar gyfer cam-drin domestig yn dibynnu ar ragdybio bod goroeswyr yn ymwybodol eu bod yn ddioddefwr cam-drin, eu bod yn gyfforddus i ddatgelu'r cam-drin a bod ganddynt y dystiolaeth sydd ei hangen. Ceir diffyg ymddiried yn y gwasanaethau ymhlith llawer o oroeswyr o grwpiau ar y cyrion oherwydd hiliaeth sefydliadol ac yn aml maent yn wynebu llu o rwystrau wrth geisio gwasanaethau cymorth neu'r heddlu.

Mae llawer o famau wedi mynegi eu bod yn aml yn cael eu cynghori a/neu'n teimlo bod rhaid iddynt gymryd rhan mewn cyfryngu er eu bod wedi darparu gwybodaeth eisoes am gam-drin domestig[24]. Mewn ymgynghoriad â gweithiwr cymorth, dywedwyd y byddai cyfreithiwr yn aml yn dweud wrth y goroeswr eu bod wedi'u heithrio. Fodd bynnag, os oedd y goroeswr yn hunan-gynrychioli, efallai na fyddai'n gwybod am yr eithriad am nad yw'n ddigon clir. Mae goroeswr oedd yn awyddus i gymryd rhan mewn cyfryngu hefyd wedi nodi eu bod yn teimlo mai dyma fyddai'r ffordd gyflymaf i ddatrys

[24] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, page 89.



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

problemau cyswllt plant ond nad oedd fel arall yn gwybod beth oedd cyfryngu na beth oedd yn ei gynnwys.

Mae llawer o oroeswyr yn dal i gael eu gwthio at gyfryngu neu'n methu gwneud cais am eithriad. Er mwyn sicrhau bod eithriadau'n gweithio'n ymarferol, rhaid cael ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhwystrau gwahanol sydd angen i oroeswyr eu goresgyn, er mwyn peidio â gorfod mynychu cyfryngu. Ni ellir gwneud hyn mewn seilo, ac mae angen hyfforddiant digonol i sicrhau bod holl staff y llys (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyfreithwyr, Cafcass Cymru, a Chyfryngwyr) yn gallu deall y mathau gwahanol o gam-drin, sut y cânt eu cyflawni a'u heffaith. Rhaid i eithriadau gael eu hasesu gan bobl sydd â gwybodaeth ddigonol am gam-drin ac mewn ffordd sy'n sensitif ac yn ystyrlon o brofiad goroeswyr a'r rhwystrau niferus sy'n eu hwynebu.

**Cyllido**

Nid ydym yn cytuno â chyfryngu gorfodol cyn achos llys, fodd bynnag pe bai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud ymlaen gyda'r cynnig, credwn y dylai gael ei gyllido'n llawn.

**Cynllun Achredu'r Cyngor Cyfryngu Teuluol**

Nid ydym yn credu bod cynllun achredu presennol y Cyngor Cyfryngu Teuluol yn sicrhau'r mesurau diogelu angenrheidiol gan nad yw'n ymddangos fod unrhyw ymrwymiad sylweddol i sicrhau bod hyfforddiant cam-drin domestig digonol yn cael ei gwblhau.

I ddod yn gyfryngwr teuluol achrededig, mae gwefan y Cyngor Cyfryngu Teuluol[25] yn nodi bod angen i chi gwblhau cwrs hyfforddi sylfaen cymeradwy. Y Bwrdd Safonau Cyfryngu Teuluol sy'n gyfrifol am gymeradwyo cyrsiau hyfforddi sylfaenol a dywed y safon cymhwysedd proffesiynol a gynhwysir yng nghanllawiau'r cwrs y dylent fod yn gallu ymateb yn briodol ac yn effeithiol i unrhyw ystyriaethau cam-drin domestig a gallu sgrinio ac adnabod cam-drin domestig na chaiff ei adrodd a hysbysu asiantaethau priodol lle bo'n berthnasol[26]. Nid yw mwyafrif y darparwyr hyfforddiant wedi sicrhau bod cynnwys yr hyfforddiant ar gael i'r cyhoedd, a hyd yn oed pan gaiff ei ddarparu, mae'r wybodaeth hon yn brin. Mae'n eithriadol o anodd pennu'r lefel o hyfforddiant sydd ganddynt ar gam-drin domestig. Ni ddarperir eglurder digonol i sicrhau ymrwymiad cryf i gwblhau hyfforddiant ar gam-drin domestig i'r holl gyfryngwyr teuluol achrededig. Rhaid i gyfryngwyr teuluol ymgymryd â

[25] https://www.familymediationcouncil.org.uk/mediator-area/standards-codes-guidance/fmc-accreditation-faqs/.
[26] COURSE-APPROVAL-Guidance-Notes.pdf (familymediationcouncil.org.uk), B4 and C4.

datblygu proffesiynol parhaus, ond nid oes ymrwymiad gorfodol i gwblhau hyfforddiant cam-drin domestig rheolaidd.

Mae gennym bryderon sylweddol nad yw cyfryngwyr teuluol yn cael hyfforddiant trylwyr ar y gwahanol fathau o gam-drin, sut mae'r rhain yn cyflwyno ac effaith hyn ar oroeswyr a'u plant. Felly, mae cam-drin yn cael ei fychanu neu ei golli. Mae'n bosibl fod y rhai nad ydynt yn cwblhau hyfforddiant cam-drin domestig sylweddol yn rhagdybio ar gam os oes Cyfarfod Cyfryngu Gwybodaeth ac Asesu wedi'i gynnal gyda'r goroeswr ar eu pen eu hun, y byddent yn fwy tebygol o deimlo'n gyfforddus i ddatgelu os oedd unrhyw gam-drin. Mae cam-drin domestig yn gymhleth iawn, ac mae strategaethau cymhellol a rheoli a ddefnyddir gan y cyflawnwr wedi'u gwreiddio mor ddwfn ym mywyd pob dydd y goroeswr[27]. Hyd yn oed mewn mannau i ffwrdd oddi wrth y cyflawnwr, gall goroeswyr ei chael yn anodd gwneud datgeliad o ganlyniad i'r cam-drin, ac mae profiad goroeswyr yn cefnogi hyn. Rhaid cael sicrwydd bod lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed a bod rheolaeth dan orfodaeth a'r niwed y mae'n ei achosi'n cael ei ddeall yn llawn.

Mae dynameg cam-drin domestig a'r gwahanol strategaethau a ddefnyddir gan gyflawnwyr i ymarfer grym a rheolaeth yn anodd ei hadnabod. Rydym ni'n credu ei bod yn hanfodol fod hyfforddiant cam-drin domestig yn orfodol, ac y ceir gofyniad i gwblhau'r hyfforddiant hwn yn rheolaidd. Rydym ni'n credu bod rhaid cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chroestoriadedd ochr yn ochr â'r hyfforddiant hwn.

**Dulliau eraill o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys**

Rydym ni'n pryderu y bydd unrhyw ddull arall o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys yn debygol o achosi trawma pellach i oroeswyr a gadael i'r cyflawnwr barhau i ymarfer pŵer a rheolaeth – gyda'r un risgiau â chyfryngu. Ni ddylai unrhyw fath o ddatrys anghydfod y tu allan i'r llys fod yn orfodol.

## Gorchmynion costau a phwerau'r llys

Rydym ni'n gwrthwynebu'n sylfaenol cyflwyno gorchmynion llys a phŵer y llys i orchymyn i bartïon wneud ymdrech resymol i gyfryngu, oherwydd yr effaith sylweddol fydd hyn yn ei gael ar oroeswyr.

Mae'r cynnig i ddefnyddio gorchmynion costau i ddal pobl yn atebol am beidio â gwneud ymdrech resymol i gyfryngu neu os ydynt yn codi problem yn afresymol yn peri anfantais anghymesur i'r rheini

[27] http://classic.austlii.edu.au/au/journals/SydLawRw/2006/31.html, 7.

sydd o gefndir economaidd gymdeithasol isel a'r rheini sy'n oroeswyr cam-drin. Byddai unrhyw fath o orchymyn costau neu ffi llys yn rhwystr i oroeswyr sydd angen sicrhau amddiffyniad y llys.

Ceir cysylltiad clir rhwng amddifadedd a cheisiadau cyfraith breifat, gyda bron i hanner y mamau'n byw yn y ddau cwintel mwyaf difreintiedig a thros chwarter yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig.[28] Mae goroeswyr eisoes yn wynebu gostyngiad yn eu hadnoddau ariannol am eu bod yn gorfod dychwelyd i'r llys[29] neu gymryd amser yn rhydd o'r gwaith, heb sôn am gyflwyno gorchmynion costau. Cafodd un goroeswr o gefndir lleiafrifol ethnig, oedd yn dibynnu ar fanciau bwyd oherwydd cam-drin ariannol, brofiad o hiliaeth a gwahaniaethu ar sail dosbarth oedd wedi'i wreiddio yn yr ymateb oeraidd a dderbyniodd gan y llys, o'i gymharu â'r ymateb a dderbyniwyd gan y cyflawnwr gwyn proffesiynol[30]. Mae gennym bryderon difrifol y byddai cyflwyno gorchmynion costau i'r rheini y pennir nad ydynt wedi gwneud ymdrech resymol i gyfryngu'n hwyluso mwy o gam-drin ar ôl gwahanu, pŵer a rheolaeth gan y cyflawnwr. Mae'n debygol y bydd y cyflawnwr yn datgan bod y goroeswr wedi bod yn anfodlon cyfryngu.

Mae Surviving Economic Abuse wedi tynnu sylw at y ffaith fod goroeswyr cam-drin economaidd yn gweld y cam-drin yn dwysáu ar ôl gwahanu a bod y cyflawnwr yn aml yn disbyddu adnoddau economaidd y goroeswr drwy geisiadau niferus i'r llys[31]. Rydym ni'n bryderus iawn y bydd cyflawnwyr yn defnyddio gorchmynion costau fel arf i barhau i gam-drin y goroeswr yn economaidd ac y bydd hyn yn cael effeithiau difäol ar oroeswyr a'u plant. Byddai cyflwyno gorchymyn costau'n rhwystr ychwanegol, a allai atal goroeswyr rhag ceisio amddiffyniad y llys.

Nid ydym yn credu y dylai fod gan y llys y pŵer i orchymyn partïon i wneud ymdrech resymol i gyfryngu, yn enwedig os pennir bod amgylchiadau wedi newid neu bellach yn amherthnasol. Rydym ni'n pryderu y gallai hyn greu naratif sy'n dweud pan fydd y berthynas rhwng y cyflawnwr a'r goroeswr wedi dod i ben, fod y cam-drin wedi dod i ben ac felly y byddent yn gallu cyfryngu. Mae hwn yn naratif peryglus gan fod cyflawnwyr yn dal i weithredu pŵer a rheolaeth dros oroeswyr ar ôl gwahanu fel y cydnabyddir yn y Diwygiad i Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

[28] https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/nfjo_whos-coming-to-court_wales_report_FINAL_english.pdf, page 2.
[29] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/domestic-abuse-private-law-children-cases-literature-review.pdf, page 127.
[30] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, page 116.
[31] https://survivingeconomicabuse.org/wp-content/uploads/2021/10/SEA-response-MoJ-Family-Justice-Call-for-Evidence-August-2019.pdf, page 3.

## Rhaglenni cyd-rianta

Yn bendant nid ydym yn cytuno y dylid gosod gofynion gorfodol ar rieni sy'n gwahanu i fynychu rhaglen cyd-rianta. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar oroeswyr nad ydynt yn gallu sicrhau eithriad.

Ni fyddai'r un eithriad ag a ddarperir ar gyfer cyfryngu ar hyn o bryd, a phe bai cyfryngu gorfodol yn cael ei gyflwyno, yn atal goroeswyr rhag gorfod cymryd rhan yn y rhaglen hon. Fel yr amlygwyd yn flaenorol yn yr ymateb hwn, mae'r eithriad yn rhagdybio bod goroeswr yn gallu datgelu cam-drin ac yn gallu rhoi tystiolaeth am y cam-drin. Mae nifer o wahanol rwystrau'n atal goroeswyr rhag datgelu cam-drin, yn amrywio o beidio â sylweddoli eu bod yn oroeswr, ofni datgelu oherwydd y canlyniadau o du'r cyflawnwr, diffyg ymddiriedaeth mewn systemau sefydliadol neu beidio â gallu rhoi tystiolaeth o gam-drin. Amlygodd adroddiad panel Harm fod llawer o oroeswyr yn teimlo beth bynnag oedd yr amgylchiadau, megis cam-drin domestig, bod y llysoedd yn disgwyl i rieni weithio gyda'i gilydd i hwyluso trefniadau cyswllt[32]. Yn aml caiff goroeswyr eu cynghori i beidio â chodi honiadau o gam-drin domestig rhag ofn y ceir gwrth-honiadau o ddieithrio rhiant, gyda cham-drin domestig yn cael ei ail-labelu'n berthynas "gwrthdaro uchel" [33]. Yn y ddogfen ymgynghori nid yw'n ymddangos bod gwahaniaeth clir rhwng gwrthdaro a cham-drin domestig pan geir trafodaeth ar ddatrysiad cynnar. Mae cam-drin domestig yn drosedd risg uchel, niwed uchel ac ni ddylid ei fychanu fel gwrthdaro rhwng rhieni. Rhaid cymryd goroeswyr cam-drin domestig o ddifrif; caiff un fenyw ei lladd gan ddyn bob tri diwrnod yn y DU a chafodd 52% o'r menywod a laddwyd gan ddynion yn 2020 eu lladd gan bartner cyfredol neu gynbartner[34]. Bydd cyflwyno gofyniad gorfodol i fynychu rhaglen cyd-rianta'n achosi mwy o niwed i'r goroeswr ac yn caniatáu i'r cyflawnwr barhau i ymarfer pŵer a rheolaeth drwy'r rhaglen.

Rydym ni'n siomedig i weld y byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dymuno cyflwyno'r mesur gorfodol hwn, a fyddai'n gwneud i'r goroeswr i fynychu rhaglen gyda'r cyflawnwr, tra bo tystiolaeth yn dangos na all pob goroeswr fanteisio ar yr eithriad hwn. Credwn hefyd ei fod yn gosod y naratif ar y goroeswr i fod yn hyblyg ac yn gydweithredol pan ddylai'r ffocws fod ar eu cadw'n ddiogel rhag y cyflawnwr a'i ymddygiad. Mae hyn yn golygu bod goroeswyr yn gallu dioddef cam-drin a thrawma pellach gydag un goroeswr yn ei ddisgrifio'n flinderus ac ansensitif[35].

---

[32] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, page 7.
[33] ibid, 65.
[34] https://www.femicidecensus.org/wp-content/uploads/2022/02/010998-2020-Femicide-Report_V2.pdf, page 8.
[35] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/assessing-harm-private-family-law-proceedings/results/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report.pdf, page 142.

Lle bo'n addas, ac mewn amgylchiadau heb gam-drin domestig, rhaid i raglenni cyd-rianta fod yn fater o ddewis i sicrhau bod y ddau barti'n awyddus i weithio gyda'i gilydd heb anghydbwysedd o ran pŵer. Ni ddylai fyth fod yn orfodol gan y gallai goroeswyr cam-drin domestig gael eu gorfodi i gydymffurfio os nad ydynt yn gallu sicrhau eithriad.

## Gwybodaeth am broses y llys

Dylid darparu gwybodaeth am broses y llys i bob parti mewn anghydfod cyfraith teulu breifat. Rhaid i hyn fod ar gael mor fuan â phosibl mewn fformat ysgrifenedig, i sicrhau bod goroeswyr yn gallu deall eu hawliau a'r eithriadau perthnasol.  Rhaid i'r holl wybodaeth a rennir, boed ar-lein neu mewn llyfryn, fod ar gael ym mhob iaith gan gynnwys y Gymraeg a BSL i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ieithyddol. Rhaid i wybodaeth fod ar gael i'r plant y bydd proses y llys yn effeithio arnynt, gan fod goroeswr wedi mynegi bod yr effaith a gafodd ar ei merch yn ddifrifol. Rhaid gallu cyfeirio fel bod plant yn gallu cyrchu cymorth os oes angen. Credwn fod angen gwrando ar y goroeswyr a bod angen iddynt deimlo eu bod yn cael gwrandawiad cyn gynted â phosibl a byddai hyn yn digwydd drwy gael cyngor cyfreithiol cynnar. Bydd angen i oroeswyr roi tystiolaeth am gam-drin domestig a bodloni'r prawf modd ar gyfer cymorth cyfreithiol, a gall hyn gosbi goroeswyr nad ydynt yn gallu rhoi tystiolaeth o gam-drin domestig neu a allai fod wedi prynu tŷ ond sydd â chyllid hylifol cyfyngedig i fforddio cynrychiolaeth gyfreithiol[36]. Bydd diffyg cymorth cyfreithiol yn cael effaith uniongyrchol ar ymwybyddiaeth goroeswr o'i hawliau.

O ran goroeswyr cam-drin domestig yn benodol sy'n mynd drwy broses y llys, tynnodd un goroeswr sylw at y ffaith y byddent yn gwerthfawrogi llyfryn grymuso sy'n crynhoi eu hawliau, yr hyn roeddent yn gallu ei gyrchu a pha gymorth y gallent ei dderbyn. Nodwyd hefyd bod proses y llys yn gallu teimlo'n unig, a'i fod yn aml yn anodd delio â sylweddoli eu bod yn oroeswr cam-drin, a all ddigwydd ar gamau gwahanol ym mhroses y llys. Credwn y byddai offeryn ar-lein yn gyfle i gynorthwyo goroeswyr i adnabod a nodi'r cam-drin maent yn ei deimlo, a hefyd gynnwys gwybodaeth i'w cyfeirio at wahanol wasanaethau arbenigol. Rhaid i unrhyw gyfeirio at wasanaethau arbenigol gynnwys yr holl ddarpariaeth 'gan ac ar gyfer', i sicrhau bod grwpiau ar y cyrion yn gallu cyrchhu'r cymorth sydd ei angen arnynt. Byddem yn hapus i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod holl wasanaethau Cymru'n cael eu cynnwys.

[36] ibid, 146.